Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol lii. EBRILL, 1952 Rhif 4.

Nodiadau'r Golygydd.

Yr Hen Set.

Na, nid wyf yn bwriadu difrïo neb a'u galw yn *hen set*, ond yn ddiweddar deuthum o hyd i hen set radio a luniais pan oeddwn fachgen ysgol, tuag ugain mlynedd yn ôl. Gwyddonydd oeddwn y pryd hwnnw a'm holl fryd ar ddeall rhyfeddodau trydan a'i berthnasau eraill. Cofiaf frwdfrydedd y llunio a'r cynllunio pan nad oedd radio mor gyffredin ac y mae heddiw. Darllen llyfrau, holi Ben, Cerdin View, cael darnau o hyn a'r llall ganddo ef ac eraill, ac ar ryw noson fythgofiadwy rhoi'r cyfan at ei gilydd a chlywed llais drwy'r *phone* am y tro cyntaf i gyd ar yr hen aelwyd. Llais Ramsay Macdonald ydoedd, ac er na chofiaf mo'i araith bellach cofiaf o hyd am ei acen Sgotaidd, hyfryd. Peth syml iawn yw set radio grisial, oblegid dyna'i gyd oedd ar y ffenestr fach oedd bocs pŷs a thua dau gant o gylchoedd o wifren denau wedi ei throi amdano, cristal—darn bach gloyw o ryw hen graig, *head phone* a rhwydwaith o wifrau mân yn cysylltu'r cyfan. Yna yr oedd yn rhaid wrth *aerial* uchel ac *earth* a oedd yn gafael yn dynn yn y ddaear. Dyna'i gyd, ond trwyddi deuai llais a chân o bedwar ban y byd a pha beth a allai fodloni chwilfrydedd crwt yn well na hyn? Pan welwyd hi gyntaf gan un o flaenoriaid Bwlchyfadfa, meddai, "Beth yw'r rhwyd corryn 'ma sy genti"? Ie, rhwyd corryn ydoedd o ran golwg ond medrai ddenu angylion nef a daear a'u dal am ennyd i'r neb a oedd ganddo glust i wrando.

Pa ddydd wedi cael gafael arni deuthum â hi yn ôl i Aberdâr gan feddwl ei hail lunio ar gyfer bachgen arall erbyn hyn—dyna'r esgus o leiaf! Cesglais y gwifrau a cheisiais eu cysylltu fel cynt ac wedi gorffen hynny o dasg rhoddais yr *head phones* ar fy nghlustiau a gwrando. Ond gwaetha'r modd ni ddaeth sain na sŵn, dim ond distawrwydd llethol. Chwiliais y gwifrau, trwsiais hwnt ac yma ond

yn ofer, gwrthododd yr hen set weithio. A ddaw hi mwyach, neu a oes raid iddi fod yn hen grair a berthyn i'r oes o'r blaen ?

A hithau'n ganol nos bellach, eisteddias yn y gadair a'r *head phone* am fy nghlustiau o hyd, ac er na ddaeth sain drwyddynt bûm yn gwrando ysbaid ar un o'r rhaglenni nodwedd gorau a glywais erioed—rhaglen o atgofion a synfyfyrion. Gyda gwifren fry yn y nefoedd—yr *aerial*, a gwifren arall ynghlwm wrth y ddaear a chrisial enaid yn eu clymu fe ddaw'r llef ddistaw fain i glustiau dyn. Dyna'r cylch cyfrin—*circuit* Duw.

Beth oedd diffyg yr hen set tybed ? Hwyrach fod y darn crisial a oedd mor loyw gynt wedi pylu gyda henaint a'r *sensitive spots* wedi darfod amdanynt. Rhof gynnig i gael gweld, a chrafu peth o'r hen gramen lwch a ddisgynnodd arno yng nghwrs y blynyddoedd i ffwrdd a dod o hyd i'r croyw loyw oddi tano. Cewch wybod eto a lwyddaf, credaf ei bod yn bosibl.

Pa sawl dyn heddiw sy'n ceisio gwrando ar y llef ddistaw fain gyda hen set a hen grisial, a'i *aerial* wedi disgyn yn isel gan rwbio yn nho ei dŷ. Ni chwyd *circuit* felly ddim ond sŵn y glaw a'r gwynt a gwichian brigau'r coed. Bu'r cwrdd gweddi a'r ysgol Sul a'r bregeth yn grisial gloyw unwaith a negeseuau Duw yn llifo drwyddynt. Onid oes alw bellach am adnewyddu'r cylch a gloywi'r crisial a dyrchafu'r aerial i'r uchelion. Efallai bod angen set newydd gyfangwbl mewn ambell gyfeiriad.

Cyn rhoi fyny pob gobaith am sŵn a sain o'r hen set y mae gennyf un cynnig arall i'w wneud. Af ati i lanhau'r cysylltiadau (*connections*) rhwng pwynt a phwynt a rhwng gwifren a scriw. A oes angen gwneud hyn yn set y cysegr ? Chwi all ateb ond gwn fod rhwd ar gysylltiad aelod ac aelod, aelod ac eglwys ac eglwys a gweinidog yn torri ar rediad neges Duw i'n plith. Mae bwlch yn y *circuit* pan nad elo cynulleidfa law yn llaw.

"Megis yn y nef felly ar y ddaear hefyd", meddai'r Iesu, ond ni bydd hynny byth oni fyddo'r crisial yn loyw a'r cysylltiadau'n lân. 'Rhain yw'r bont rhwng *aerial* ac *earth*—rhwng nef a daear.

Gwyl Lladd Mochyn yn Syra (Gwlad Groeg).

Gan Ceri Davies.

Pan ddeuthum yn ôl yma wedi'r gwyliau byr yn yr hen wlad cefais groeso bendigedig. Yr oeddwn wedi cyrraedd ar adeg y gwleddoedd mawr a'r bennaf a'r doniolaf o bob un oedd ' Gŵyl Lladd Mochyn.' Hon yw dathliad pennaf y werin bobl ac y maent yn cael hwyl rhyfeddol wrthi.

Pan laddwyd mochyn rhieni'r forwyn blant yma, fe'm gwahoddwyd i'r wledd ac fe euthum ond nid heb ofni ychydig beth allai ddigwydd i mi. Euthum yno mewn car, ac ychydig a wyddai'r gwerinwyr a'm gwelodd yn dod mewn rhwysg, fy mod yn cofio'r amser pan edrychwn ymlaen yn eiddgar at ddiwrnod lladd mochyn ym Mhenlôn er mwyn i mi gael lle i chwarae ' tŷ bach ' yn y twlc ! Cyrhaeddais tua chwarter wedi saith y nos ac fe'm croesawyd yn y ffordd Roegaidd arferol a gwraig y tŷ yn fy nerbyn ar riniog y drws gan ymgroesi'n ddefosiynol. Yna aeth a mi i mewn i ystafell y wledd, ystafell wedi eu goleuo â lampau carbed a'r rheiny'n drewi'n anioddefol. (Cofiais am y lamp garbed a aeth ar dân gyda 'nhad rywdro a minnau a'r parchus olygydd yn ei diffodd drwy stwffio mwswm iddi !)

Gosodwyd byrddau o gwmpas yr ystafell ac yr oedd tua deg ar hugain o bobl yn eistedd wrthynt. Aeth pawb braidd yn swil ar ddyfodiad y ferch ddieithr (fforiner !) i'w plith ond ymhen amser anghofiwyd pethau felny. Yr oedd y byrddau wedi'u gosod ar gyfer sŵp (ni ellid ei alw'n gawl) a llestri ail gwrs hefyd. Yr oedd yno blatiau o salad, tomatos a maip wedi eu torri'n bedair rhan a'u gosod ar y lliain. Yn eu hymyl yr oedd moron a dail bresych ynghyd a blychau o briciau glanhau dannedd a ddaeth yn ddefnyddiol iawn cyn diwedd y wledd. Daeth y sŵp i'r golwg, ond cyn dechrau arno fe yfodd pawb lwnc-destun i'r gwestai "Chronia Pola" (llawer tro da) a "Cata Chrono" (blwyddyn dda). Retzina oedd y ddiod, sudd grawnwin a adawyd i godlo am dri mis, ac yn ddigon cryf i godlo meddwl y callaf mewn tair munud.

Ar ôl y sŵp daeth cig a thato, ac ar ôl hynny ail afael mewn rhagor o gig ffrei a ffagots. Y peth nesaf oedd gweld y wraig yn cynnig ryw ddail o fasged i bawb a rhwng y cloron, moron a'r maip yr oeddwn yn teimlo yn debyg iawn i asyn erbyn hyn. Yna cynigiodd y wraig rhywbeth tebyg iawn i gwrens i mi. Gofynnais beth ydoedd, a'r ateb oedd ' Gwrwni emata.' Enw digon neis, ond wyddoch chwi beth oedd ? Ychafi !—gwaed y mochyn wedi bobi ! Dim diolch yn fawr—'doedd gen i ddim golwg ar dreip. Ond 'roedd hyn yn waeth byth.

Ond chwarae teg daeth pethau'n well, a'r arlwy nesaf oedd ffrwythau eu meysydd megis oroens ac afalau ac wedi conio'r rheiny'n ddyfal, a'r loddest wedi parhau am awr a mwy dechreuwyd hwylio'r ddawns. Tair record oedd ganddynt a gramaffôn o oes Noah, os nad cynt, ond petai Henry Hall yno'n bersonol ni fyddai gwell hwyl. Chredai neb y fath olygfa ydoedd gweled gwerinwyr garw yn ystwytho'u aelodau yn sŵn gwichlyd y gerddoriaeth ddwyreiniol.

Cofiais am noson torri'r mochyn gartref a'r ystorïau a'r hanesion a geid yno. Nid oedd hamdden i stori yn Syra, eu harwyddair yma yw bwyta, yfed, dawnsio a bod lawen. Cefais ddarn o gig briw yn anrheg a chyn i mi ymadael daeth pawb ataf i ysgwyd llaw. Yr wyf wedi bwyta octopus a malwod ar fy nheithiau, ond gwaed mochyn—ychafi !

Yr Aderyn Bach.

Hanesyn i Blant.

Gan A. J. Rees, Llanbedr.

Un diwrnod yn ystod yr haf diwethaf, aeth Jim, bachgen tua deuddeg oed i roi tro am ei famgu a oedd yn byw rhyw ddwy filltir a hanner i ffwrdd. Cawsai Jim y Bws i fynd am ddwy filltir, yna cerddai yr hanner milltir arall ar hyd lôn gul a arweiniai at dŷ ei famgu. Wedi cyrraedd, a chael cwpanaid o dê a sgwrs fach, aeth Jim allan i'r ddôl i gael golwg ar y poni wen. Wrth ddychwelyd at y tŷ, gwelodd aderyn bach pert neilltuol yn hercian ger clawdd yr ardd, aeth ar ei ôl ac fe'i daliodd, a dygodd ef i'r tŷ, a chan ei fod wedi serchu ynddo, gofynnodd i'w famgu a oedd yn fodlon iddo gael ei roi yn y caets (*cage*). Bodlonodd yr hen wraig a gosodwyd y caets ger y ffenestr yn y gegin. Cyn pen dwy funud dyna ddau aderyn mawr yn disgyn ar y ffenestr ac yn edrych yn gyffrous i mewn i'r gegin. Hawdd oedd gweld mai rhieni yr un bach oeddynt, yn ceisio amdano. Mynnai'r hen wraig adael yr un bach yn rhydd, ond yr oedd Jim am ei gadw i fynd adref. Gydag amser daeth yn bryd i Jim gychwyn i gwrdd a'r bws a'i cludai tua thref. Cerddodd yr hanner milltir o'r tŷ i'r ffordd fawr a'r caets yn ei law, a'r aderyn bach yn chwitian yn awr ac yn y man. Yna wedi mynd i'r bws, gosododd y caets ar ei arffed yn ofalus. Wedi cyrraedd adref, aeth i'r tŷ yn gyffro i gyd, gan ddechrau adrodd hanes y daith cyn mynd trwy'r drws bron, a dal y caets a'r aderyn i fyny i'w dangos i'w fam. Gosododd ei fam y caets ar y bwrdd ger y ffenestr, daliai yr un bach i chwitian yn achlysurol o hyd. Cyn pen ychydig funudau dyna'r ddau aderyn mawr yn disgyn ar y ffenestr eto gan chwitian yn gynhyrfus ac edrych i mewn i'r gegin. Gyda hyn cymrwyd Jim gan ryw gymaint o fraw ac anesmwythder, wrth weld y rhieni yn fflapio ar y ffenestr yr ail waith. Yr oedd y digwyddiad mor annaturiol, gan ei bod yn rhaid eu bod wedi dilyn y bws yr holl ffordd. Teimlai Jim mor anesmwyth fel y dywedodd wrth ei fam, "Beth wnawn ni os na chawn wared ar y ddau aderyn mawr yna" ?

"O", meddai ei fam, "y mae hiraeth a gofid mawr arnynt am eu baban bach, ac y mae'n well i ti ei ollwng yn rhydd". "Ie, dyna beth wnaf fi", meddai Jim. Aeth ei fam ag yntau a'r caets allan a gollyngwyd yr un bach yn rhydd, a'r olwg ddiwethaf a gawsant arno oedd ei weld yn hedfan yn hapus gyda'i rieni dros glawdd yr ardd.

Wel, blant, sut ar y ddaear, dywedwch, y medrodd y rhieni gadw eu golwg ar y bws iawn am gymaint o ffordd, a chymaint o fysiau a cherbydau eraill yn rhuthro heibio'u gilydd ar yr heolydd. Beth a'u harweiniau? Sylw ynte greddf?

Erbyn hyn y mae Ebrill wedi gwawrio arnom, ac y mae'r adar wedi adeiladu eu nythod. Os y digwydd i rai ohonoch chwi blant ddarllen yr hanesyn uchod, gobeithio y cofiwch am ofid a phryder y tad a'r fam a ddilynnodd y bws er ceisio cael eu baban yn ôl. Byddwch yn garedig wrth yr adar i gyd. Peidiwch a thorri eu nythod nac ymyrryd â'r rhai bach ac fe ddaw y rhain i'ch hadlonni yn nes ymlaen trwy ganu eu halawon melys yn y llwyni. Pe baech chwi yn deall iaith yr adar, clywsech hwy yn dweud rhywbeth yn debyg i hyn wrthych—"Diolch i chwi blant bach am eich caredigrwydd i ni trwy arbed ein cartrefi brau yn y perthi, pan oeddem ni'n fabanod eiddil, heb bluen i guddio ein croen tyner, ac heb gyfrwng o unrhyw fath i'n hamddiffyn ein hunain rhag gelynion".

Oni fuasai yn braf i gael y fath ganmoliaeth yn gyhoeddus o bennau tai, o bennau pyst y Diwifr, ac o bennau'r coedydd uchaf yn Sir Aberteifi, a phob Sir arall.

Salmau'r Mynydd Ddoe ac Echdoe.

Gan Haydn Morgan.

Salmau Eglwys Loegr.

(*Parhad*).

Eithr pwysigrwydd Mudiad Rhydychen i ni yn awr yw'r ffaith iddo ennyn diddordeb newydd yn yr hen ganu polyphonic. Chwiliwyd am yr hen alawon (nid tonau) Gregoraidd ac fe'u cewch yn *Hymns Ancient and Modern*. Ond na chreded neb mai hen ddull o gôr-ganu sydd "wedi dod lawr" yw'r *siant* heddiw, nac ychwaith mai drwy ddylanwad yr Uchel Eglwys y daeth hon i ni. Fe ddaeth i'r llannau cyffredin, 'Isel' tua chanol y ganrif ddiwethaf ac fe'i datblygwyd gyda'r anthem yn yr eglwys wladol ddiwygiedig cyn hynny gan gorau proffesiynol y prif eglwysi.

Cafodd y *Low Church* ei hun hwb yn y tri degan o'r ganrif o'r blaen ac fe godwyd nifer o eglwysi newydd yn y trefi diwydiannol—y mae eglwys St. Ioan, Clydach (1848) yn un enghraifft. Dywedir fod un noddwr cyfoethog iddi yn hoffi gweld canhwyllau yng nghynn ac am un arall yn eu taro i lawr â'i ffon gan ddweud nad oedd yr hwyrnos wedi dod eto ! Ond er gwaethaf y gŵr a'r ffon daeth y ffasiwn o efelychu'r eglwysi mawr i rym a gwelwyd corau a llaeswisgoedd yn y llannau llai. Daeth hithau'r organ a llwyddwyd i ddod a'r ' Anglican Chant ' i'r gwasanaeth oblegid gallai'r côrfeistr o organydd newid y cordiau i ddilyn y gân yn well na'r gerddorfa draddodiadol. Felly, bron o fewn cof, canwyd yr hen salmau cân yn y llan, a chlywn am rai o'n teidiau yng Ngellionnen a ddysgodd ganu'r ffidil yng Nghherddorfa eglwys y plwyf, Cilybebyll wrth eu cyfeilio. Y ' pointed psalter ' cyntaf oedd eiddo Robert Janes yn 1837. Dilynwyd hwn gan sallwyr yr S.P.C.K. yn 1865 a'r enwocaf wrth gwrs yw y "Cathedral Psalter", 1875.

A oedd salmau Tate and Brady yn hysbys i weinidogion cynnar Gellionnen ? Mentrwn gredu fod Josiah Rees wedi gwrando ar rai o'r "*New Version of the Psalms of David fitted with tunes used in the Churches*" a ddaeth allan yn 1696.

Cyhoeddwyd y tonau yma yn y Trebl a'r Bâs (alaw ac is-alaw), sef dechreuad harmoni. Cawn ein Tôn Nashville ar gyfer salmau 126, 122. Cawn Winchester New yn y Perlau ac y mae'r hen dôn "Winchester" yn adnabyddus i ni drwy'r garol "While Shepherds watched their flock by night".

Cawn eto fydryddiad o'r caniadau (Benedictus) a'r Gredo a Gweddi'r Arglwydd, etc. Gwelir y Gloria Patri ar y mesurau arferol a hefyd a'r ddau anghyffredin.

(148 salm dôn)

To God the Father Son
And spirit ever blest
Eternal three in one
All worship be addrest
As here to fore, It was, is now
And shall be so for ever more . . .

(149 salm dôn)

By angels in heaven of every degree
And saints upon earth
All praise be addrest
To God in three persons
One God ever blest
As it has been now is and always shall be.

Wele ran o Weddi'r Arglwydd,—

Our Father who in heaven art
Thy name be hallow'd in each heart
Thy kingdom come may we fulfil
Who dwell on earth thy heavenly will
With equal cheerfulness and love
As saints and angels do above . . .

A glywodd neb o'n dyddiau ni ganu un o Salmau Tate and Brady mewn gwasanaeth? Pwy a ŵyr na chanwyd rhai ohonynt ar achlysur yng Ngellionnen pan ddefnyddiwyd Saesneg. Pwy a ŵyr na'u clywyd gan ein tadau mewn gwasanaeth priodas yn eglwys y plwyf yn y dyddiau cyn caniatau trwydded priodi i'r capeli. Beth bynnag am hynny, diddorol yw darllen rhan o'r cyntaf o'r salmau enwog yma.

PSALM I. (Tate and Brady).

How blest is he who ne'er consents
by ill advice to walk,
Nor stands in Sinners' ways nor Sits
where men profanely talk.

But makes the perfect law of God
his business and Delight,
Devoutly reads there-in by Day
and meditates by night.

Like some fair Tree which fed by streams
with timely Fruit does bend,
He still shall flourish and success
all his Designs attend . . .

Y mae'n bosibl fod yr hen Salmau Saesneg cyntaf hefyd wedi eu canu ar brydiau yn ein hardaloedd a hynny o fewn cof ein teidiau, oblegid ni ddisodlwyd mo'r rheiny ar unwaith ac ym mhob man. Cawn fod Cymry Llundain yn 1797 (gan mlynedd ar ôl ymddangosiad Salmau Tate a Brady) yn cyhoeddi casgliad o salmau cân i gymryd lle eiddo Sternhold a Hopkins a'r elw o'u gwerthu yn mynd at y "Welsh Charity School". (Yn 1716, ffurfiwyd yr "Honourable and Loyal Society of Antient Britons" i ddathlu Gwyl Dewi'n flynyddol ac i ddangos teyrngarwch i Sior I. Cychwynwyd ysgol ganddynt, a aeth yn 1857, o Grays Inn Road i Ashford, Middlesex, lle heddiw mae'r enwog "Welsh Girls Public School".) Cawn olau ar ddatblygiad y ganiadaeth yn y Rhagair i'r detholiad hwn—

"this compilation is made for the use of a congregation, which hitherto had used the version of Sternhold and Hopkins. It was on comparing several others together—those of Denham, Milbourne, Tate and Brady, Smart Merrick and Watts—that an idea was suggested, of a selection, and inclusion of those single psalms, which had been happily translated and paraphrased by eminent hands such as Milton, Addison, Rowe and Steele". Dywed hefyd, "by introducing different metres . . . considerable scope is afforded for varying the melody in worship". Amlyga hyn, fod y dôn gynulleidfaol, erbyn hyn, wedi datblygu ar amryw fesurau ar gyfer yr emynau a ddaeth i gymryd lle'r salmau cân. Dengys hefyd sut y parhaodd yr hen rigymau ysgrythurol (a glywyd ac a ganwyd gan John Penry yn ei ddydd) hyd at drothwy'r ganrif ddiwethaf. A chan y parheid i ganu'r Salmau cân yng Nghymru hyd at ganol y ganrif o'r blaen, pwy a ŵyr na fu eiddo Sternhold a Hopkins ar gân o fewn cof ein tadau, yn enwedig ar ymylon Seisnigaidd ein gwlad fach ni.

(*I barhau*).

Pobol Od.

Gan Llewelyn Rees.

(*Sgwrs Radio a gyhoeddir drwy ganiatâd*).

Ar y funad hyn, ma na bobol ym mhob rhan o'r byd,—pobol ar y wynab mor depyg i bawb arall a chi a finna—yn mynd obeiti 'u gwaith yn hollol dywal a didaro, a neb yn ama o gwbwl fod 'na ddim byd allan o'r cyffredin wedi bod yn 'u hanes nhw erio'd. Ond rywdro yn rhywla fe gas rhywun ne'i gilydd siawns i weld y crac bach od yna yn 'u cymeriad nhw sy'n 'u g'neud nhw'n hollol wahanol i bawb arall.

Dyna i chi Bill Drew nawr—y bachan 'ny o'dd gyta ni yn yr Awyrlu pan o'n i mas yn Burma. Yn Assam detho i o hyd iddo pan dda'th a'n Swyddog radio ar yr un awyren a finna. O'dd rhai o'r bechgyn yn gweud dylid paso 'ibo i Bill—fod e'n od fel o'dd a, achos fod 'i dad a'i fam yn hen pan ganad a. Ond 'sech chi'n gofyn i fi, un od fel'na fydda Bill taw beth fydda oetran 'i rieni a. 'Fydda' Bill byth yn dangos unryw fath o ddiddordeb yn y siwrna pan fyddan' ni'n mynd mas i fomio. Dyna lle bydda fa yn ishta yn 'i gornal, a'r wires am 'i glusta a rhyw olwg bell farwadd yn 'i lycid a. 'Ro'dd Captan Drew wedi bod wrthi yng Ngogledd Africa am rai mishoedd cyn dod i Assam, a thra 'rodd a yno wedi 'neud rhyw

ddeg ymgyrch ar ucian yn erbyn yr Eidal a Sicily. Pan fyddwn i'n arfadd gofyn iddo ble o'dd a wedi bod yn taro—"Palermo" medda fa. "Beth am y naw tro ar ucian arall" ? meddwn i. "Dim syniad". A dyna fel bydda fa yn Burma hefyd—byth yn gofyn i ble o'n ni'n mynd, a byth yn dishgwl mas i ga'l pip ar y wlad ryfadd odano ni—dim ond ishta yn 'i gornal am oria' maith a'i wires am 'i glustia.

Ond un nos, rôn ni i fynd mâs i wasgaru taflenni dros ryw le ar bwys afon Irawaddy. Gwaith Bill ar ôl i ni gyrra'dd at y lle o'dd tynnu y bwndal taflenni at y twll yn y llawr ym mhen draw'r wyren a'u dywlu a mas. Ond galanastra fu'r nos honno. Pan 'ro'dd Bill ar dywli'r bwndal mas, dyma'r cordyn o'dd yn dyla'r bwndal gyda'i gilydd yn torri. Pan dryches i 'nol, dyna lle 'rodd Bill yn ganol cwmwl o bapura' gwynion—fel 'sa fa wedi bod yn plufo rhyw dderyn anferth—yn ymladd 'i ffordd 'nol 'sha 'i gornal. Wel, dyna'r siwrna taflenni ni'n ofer am y nos honno, ond pan es i at Bill i dynnu tipyn ar 'i gôs a, yr unig synnwyr ges i gita fa, o'dd taw swyddog radio o'dd a—nid postman.

'Ro'dd fwy i 'weud gita fa pan o'dd 'i dra'd a ar y llawr, ac ar y llawr bydda fa'n ca'l rhai o'i syniada' mwya' disail. 'Dodd dim byw na bywyd isha shafo i ben arno. 'Ro'dd a'n dyla fod pentwr o wallt yn afiach iawn mewn gwlad dwym fel Burma, ac am wythnosa' lawer fe fydda'n mynd o bythtu'r swyddocion erill i gocso nhw i ymuno gyda fa. Ond un bora, dyma fa'n dod i frecwast a'i ben yn dishgleirio fel wy newydd i ddotwy—heb flewyn arno. Dyma hi'n wa wa yn y 'stafell, a Bill yn gweud 'i fod a'n teimlo'n ddyn newydd ishws. Shafo 'i ben bob tri mish nawr, medda fe, i neud 'i wallt yn gryf, ac yna ymhen blwyddyn 'i ada'l a i dyfu fel bo gyta fa gnwd da i fynd 'nol i Canada. Ond ddigwyddws petha ddim fel 'ro'dd Bill wedi trefnu.

Un dydd llethol o fwrn—a o'dd hi'n dwym hefyd—dyma fi'n gweld y barbwr du yn 'i brasgamu ddi'n drotnoth i gyfeiriad stafell Capten Drew, ac o'n i'n gwpod ar unwaith beth o'dd ar droetyn. 'Ro'dd William wrthi am y pedwerydd gwaith. Bore dranno'th 'rodd gyta fa ben dishglaer, newydd spon. Ond am ddou o'r gloch dyma'r follt yn dishgyn. Necas o Awyrlu Canada yn gorchymyn iddo fa ddod 'nôl i Montreal ar unwaith i ddysgu radio i fechgyn newydd ymuno. Fe na'th 'i ora' glas i bido câl mynd. 'Rodd a bron torri'i galon 'i fod a'n gorfod mynd 'nôl sha thre. Ond na—'nelsa neb y tro ond fe. (Diffyg mawr Bill wrth gwrs o'dd 'i fod a'n rhy dda yn 'i waith). Mewn llai na deuddeg awr 'ro'dd Bill wedi gatal Burma ac ymhen wythnos 'rodd a yn Montreal, a'r eira yn bump trodfadd ar y llawr—ac ynta' druan heb flewyn ar 'i ben.

Ma' 'i wallt a wedi hen dyfu er y dyddiau hynny, ac erbyn hyn mae wrthi'n ddiwyd gyda'i waith yn Alberta—fel postman.

Ond nid Bill o'dd yr unig un i'n difyrru ni yn Burma. Dyn od 'i wala o'dd Hopi. 'Rodd rhyw wên gyfrws ar 'i wefysa fa beunydd fel sa fa'n gwpod rwpath o'dd pawb arall yn rhy dwp i wpod. Fe fu Hopi'n byw drws nesa' i fi am acos i ddwy flynedd yn y trofannau. Ma' amser i bopath meddan nhw ond fydda fa byth yn 'neud y petha 'ny 'run pryd a dynion erill. Ar 'i ddyddiau secur lawer i dro, fe welas a'n sgrifennu llythyron ar ford fach gron tuallan idd'i stafell am 'wech o'r gloch y bora. 'Dodd dim dal chwaith beth fydda fa'n wishgo. Pan fydda pawb arall bron a chw'mpo gyda'r gwres ac yn ca'l gwaith godda' hyd yn o'd 'u dillad tena' gwyrdd fe ddelsa fa miwn gyda'r nos i gael cino yn ymal iawn yn nillad glas trwm swyddocol yr Awyrlu. Droeon erill, fe welsech a miwn clampia' o sgitia 'oelion ac yn gwishgo Yorks 'run peth a glowyr Morgannwg. Fel 'rwy'n gweud, o'dd dim "trust" yn y byd beth welsa chi yn 'i gylch a.

Pan o'dd a ddim yn hedfan 'rodd a wrthi yn g'neud y petha' mwya' od. 'Rodd a wedi clysgu ryw ddwsan o focsus mawr tin a chloria arnyn-hw—peinto'r cwbwl yn ddu, ac yna doti rhifa' o un i ddeuddeg arnyn-hw mewn paent gwyn. Yna rhannu tu fewn pob bocs yn bedwar, a dodi rhif ar bob un o'r rhain hefyd mewn inc. 'Rodd a'n cadw'r deuddeg bocs, un ar ben y llall ym mhen draw 'i ystfaell wely. Yn y bocsus hyn, mi fydda' Hopi yn catw petha mwya' angenrheidiol bywyd—crib, nisiedu, pensals, sana', botwma', cigarettes ac yn y bla'n. "Ylla i ga'l mentyg pensil, Hopi" ? Gellid—y trydydd bocs, yr ail ran—ac yno byddai'r gwrthrych yn ddios. Un rhyfadd o'dd Hopi am drefan.

'Ro'dd gyta fa hefyd dudalen anferth, a llinella o bob lliw a llun yn gwau drosti—rhwbath ddicon tepyg i stesion Crewe. Fe ylsach chi ddirwn unrhyw ffaith o fywyd Hopi a'i deulu o'r dtualen 'ma—faint 'ro'dd a wedi ennill yn 'i os hyd y dydd hynny, faint o yrian oedd gyta fa' yn y banc, oetran 'i blant—wrth y mish—nifar yr oria' o'dd a wedi hedfan ac yn y bla'n. Fe fydda' wrthi am oria gyda'i bensals a'i liwia yn 'i law a'r wen fach gyfrw's 'ny ar 'i wefusa fa.

Byw yn y dyfodol o'dd a wystod—yr ymsar ar ôl y rhyfal, a phob mynydd yn wyn. 'Ro'n ni'n gymdocon da, a fe fuon yn ishta ac yn wilia am oria' lawer 'i dro ar y verandah fach o fla'n yn bwthyn gwellt. Fe fydda' Captan Hopkins bob ymsar yn g'neud i chi deimlo fod 'na rywbath cyfrinachol ar droetyn—yn wilia'n dywal ac yn ishal fel ta fa ddim mo'yn i neb yn cl'wad ni—a ni'n sôn fylla am y petha' mwya' cyffredin a diniwad. 'Ro'dd a'n llawn cynllunia' a rheini mor ddilun a dim a glywsoch chi erio'd. Bychgan o Fanceinion o'dd a, ond nelsa dim un lle'r tro ar ôl y rhyfal ond Canada. Un scêm o'dd i werthu petrol yno, a dyma fa yn fy rabiddio i bido a gweud wrth neb o'r lleill ne' fysa nhw wrth un yr tric. Fe wedes wrtho mod i wedi bod yn Canada f'hunan a bof fi

ddim wedi gweld siop "fish and chips" o Halifax i Vancouver. Wel os do fa—"fish and chips" o'dd 'i wetyn. Dyma fa'n tynnu llun y fath siop o'dd 'i fod, ac yn egluro fod o'n mynd i ddoti dyn i etrych ar ôl y siop gynta' pan fydda' fa a'r wraig wrth yr ail un, wetyn symud 'mla'n i'r trydydd, ac yn y bla'n ac yn y bla'n. Yn ôl Hopi, fydda' "fish and chips.. mor gyffredin yn Canada a pholion telegraph ar ôl iddo fe fod wrthi am flwyddyn ne' ddwy.

Un diwrnod, dyma Hopi'n dod i ishta tu fa's fel yrfadd, ond 'ro'dd mwy o wên ar i wynab a'r tro hyn, er i fod a'n wilia mor dywal ag erio'd. 'Ro'dd yn amlwg fod a wedi dod i ryw benderfyniad mawr ne' wedi 'neud ryw ddarganfyddiad pwysig. Arian—ne'n hytrach arian papur—o'dd y testun y tro hyn. Na, fydda dim gwerth ar arian ar ôl y rhyfal. Meddianna o'dd yr unig beth am dani. Felly fydda'n rhaid iddo fa dynnu pob c'inog goch mas o'i lyfra tâl a'i gwân 'i i Benares i byrnu gema'. Benares medda' Hopi o'dd y lle gora' yn y Dwyran am danyn-hw. 'Ro'n i ar fy llŵ nawr i bido a gweud wrth y swyddocion erill ne' fysa pawb yn mynd i Benares—ac ar yr un gêm.

Yr un dydd âth i weld y Prif Swyddog—yr hen ddyn, fel bydda'n i'n i alw ac fe wetws hwnnw wrtho fod isha gwylia arno'n dost, a chafodd gyniatad heb ffys na ffwdan i fod o dre am fish. Wel, dyma fa'n mynd dranno'th—hedfan i Galcutta ac yna gyda'r traen am gannoedd o filltiroedd i Benares yn nyffryn y Ganges—a thri cant o bunno'dd yn i bocad. Ymhen ryw wthnos wetyn, 'w'n i'n chwara ffwtbol gyda ryw dîm neu gilydd yn y gwersyll, ac yng nghanol y gêm, pwy welswn i'n cerad lan dros yr hewl o'r cae hedfan ond yr hen Hopi. 'Ro'dd a fel ta fa'n mynd yn ysgwyddog ac yn weddol gyflym—rhywbeth yn depig i gi lladd defid yma. 'Ro'wn i'n siwr taw felna dylsai dyn a gemau yn i bocad gerad. 'Ella'r gêm ffwtbol ddim cwpla'n ddicon cynnar i fi—o'n i bron a marw isha'i weld a. Wel fe ddes i o hyd iddo yn y 'stafell fwyta a gof'nas iddo ar unwaith am weld y gemau. Dyma fa'n mynd a fi i ryw gornel bach tywal yn y 'stafell ac yna dechra sôn am yr Indiaid melynddu. Cymsynied mawr, medda fe, o'dd etrych lawr ar yr Indiaid neu gredu 'i bod nhw'n llai cyfrws na ni. 'Ro'n nhw yn gwpod na fydda arian papur o fawr gwerth ar ôl y rhyfal, felly'r o nhw wedi bod wrthi'n pyrnu gemau hefyd. O'dd ofan ar Hopi nawr bydda gormod o emau ar y farchnad yn yr ymserodd calad nes ymlan. Ma'n depig i'r syniad difrifol hyn i daro fa ar stesion Benares, a wedi trafaelu bron mil o filltiroedd dyma fa'n dod nôl fel yr ath a, a'r arian papur yn i bocad. Druan o Hopi, fel ma' gwaetha'r modd, ni fu isha arian o unryw fath arno cyn diwedd y rhyfal.

'R'odd gyda ni un Capten arall od—cymeriad o'r enw Red McNeill—bychgan pengoch, ysgyrnog llytan o Canada, polisman yn y "Mounties" cyn y Rhyfal. Welas i neb ariod mor ddisymwth gyda'i ddryll a neb yn i defnyddio hi mor amal chwaith. Os nad

o'dd a mâs yn hedfan, 'ro'dd i'n bing bang at rwpath drwy'r dydd. Yr esgus o'dd catw mewn cymal erbyn mynd sha thre. Fydda Red byth yn cwnnu'r ddryll fach lan at i gyfar—tynnu ddi mâs o'i chàs, ac yna, gellwng am 'i thraws hi *yn gwmacs* fel gwŷr y ffilms. Fe fydda'n amal yn tyrfu'r bechgyn o'u crwyn pan fydda'n nhw hannar cysgu, neu chwarae cardiau o dan y verandah yng ngwres y dydd. Cre wch fi, r'odd yn enbyd fod bythdu pan o'dd e'n 'wara gyda'i decan. Fyddai rhyw "*cyrrac*" disymwth ryw drodfadd neu lai wrth y'ch ochor, a dacw'r deryn yn cwmpo fel cyrrag mâs o'r awyr. Ond chware teg iddo, nid o'dd a byth yn cynnig at greatur gwyllt yn yr awyr neu ar y llawr os nad o'dd a'n symud. A chofiwch, os *o'dd* Red yn 'nelu at rwpath o'dd a'n gorff *bob tro* yn ddiffael.

Pan o'n i yn Assam, fe gas y Prif Swyddog wahoddiad iddo fa'i hun a phump swyddog arall i fynd i gin'o un nos i blas y Maharajah ryw ddeg milltir o'r gwersyll. 'Ro'n i wedi cl'wad o dro i dro fod y Maharajah yn lico gofyn i rai o'r dyn'on ddod lawr, a'u lico sôn hefyd am 'i feddiannau' pan fydda' nhw yna—'i blas crand, 'i erddi a'r holl weision o'dd gyda fa. Wel y nos hyn 'ro'n i'n dicwdd bod yn un o'r rhai o'dd wedi ca'l gwahoddiad—a Red McNeill—a ffwrdd a ni yno ar noswath ola' huad hyfryd. Fe geson ni le ardderchog yno a dicon o bopath yn fwyd ac yn ddiod. Sha hanner nos dyma'r Maharajah yn mynd a ni mâs i'r gerddi tu ôl i'r plas i weld rai o'i flota a'i goed dirif. 'Ro'dd 'i fel dydd o ola', a'r cod ychal yn tywlu 'u cysgod ar hyd y lawntia' a'r llwybra'. 'Ro'dd Red wrth yn ochor i, yn cerad fan'ny'n itha tywal drw'r gerddi. Ond yn sytan, heb rypudd yn y byd, dyma hi'n "*cyrrac*" a chlywas rwpath trwm yn cwmpo yn y gwyll tew hanner can llath odd'wrtho ni. O'dd Red wedi saethu teigar y Maharajah yn 'i gwb. Druan o'r Maharajah pan welodd a'r anifal ar y llawr a dim cyffrad ynddo fa, dyma fa'n dechra llefan a wilia'n gyflym yn 'i iaith 'i hunan. Pawb yn wilia'n gro's i giddyl nawr ond Red, a'r Hen Ddyn yn 'i rhoi 'ddi iddo fa heb flewyn ar 'i dafod a. Fe dda'th ymweliad y nos honno i ben yn gynt nag o'dd neb ohonon ni wedi dishgwl, a fe wyddan ni gyd ma' dyna'r gwahoddiad dwetha gelsa neb o'n swyddocion ni i'r plas. Miwn a ni i'r "jeep" yn itha diseremoni a off sha thre. 'Ro'dd yn itha drwg gan yr hen Red fod a wedi creu shwd gynnwrf. "Ond trueni" medda fa "i'r anifal gyffro. 'Sa fa ddim wedi symud 'sa popath yn iawn". 'Ro'dd 'i fel sa' 'i'n reddf ynddo fa i saethu at rwpath diarth welsa fa'n cyffro yn y gwyll. 'Sa fa wedi sylweddoli mewn pryd 'sa fa ddim wedi saethu at greatur o'dd a dim siawns i ddianc, ond 'na fe—'i weld a'n symud o'dd y peth 'nath 'i. Hynny w'i'n cretu o'dd yn gwasgu fwya ar Red ond fu a fawr o dro yn dod 'nol iddi 'i hwyl pan wetws yr Hen Ddyn wrtho taw Maharajah, ne bido dyna'r ergyd gora welws a eriod.

Priodasau.

Yng Nghapel-y-Bryn, Chwefror 23ain, Miss RACHEL JONES, Cluncoch, Cwrtnewydd a Mr. TOM LLOYD JONES, Alltygog, Nantgaredig, Caerfyrddin.

Chwefror 23ain, yn eglwys Llanwenog, gan y Parch. S. Morgan, Ficer, unwyd mewn glân briodas Miss MARGARET LLOYD, trydydd merch Mr. a Mrs. David Lloyd, Tyngrug-uchaf, Cwmsychbant a Mr. GWILYM MARLES THOMAS, mab Mr. a Mrs. William John Thomas, Gwargraig, Llanybydder. Haul llwyddiant a lewyrcho ar eich llwybrau.

Marwgofion.

Ar nawn Nadolig, wedi cystudd hir, bu farw MARY JAMES, Rhydcoedfoel, Llandysul, a hithau yn 81 oed. Gwannaidd fu ei hiechyd ers tro hir, ond wedi colli ohoni ei phriod rhyw ychydig fisoedd yn gynt, gwywodd fel dail y coed dan yr hydref wynt. Yn y lle uchod, lle y ganwyd hi, y treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes faith yn fawr ei gofal am ei theulu a phob anifail ar y fferm. Hannai o hen deulu chwareuodd ran bwysig ym mywyd cymdeithasol a chrefyddol y fro yn y dyddiau a fu, ond heddiw nid erys ond ychydig ohonynt yn Nyffryn Clettwr. Dygwyd hithau i fyny yn yr hen draddodiad ac ymaelododd yn ifanc iawn yn Llwynrhydowen, ac er i lesgedd a phellter y ffordd ei chadw oddi yno ers blynyddoedd, eto ni pheidiodd ei sêl a'i chariad at yr achos hyd derfyn y daith. Yn ôl ei gorchymyn ar ei gwely olaf fe fydd yr achos yn y Llwyn gryn dipyn yn gyfoethocach ryw ddydd ar ei hôl. Y dydd Gwener dilynol hebryngwyd ei gweddillion i fynwent y Llwyn. Anghyoedd oedd ei hangladd, ond daeth nifer o berthynasau a chyfeillion ynghyd i dalu iddi y gymwynas olaf. Cymerwyd y gwasanaeth gan y Parch. J. Marles Thomas, Pantydefaid gyda chynorthwy y Parch. S. E. Bowen, Alltyplaca. Yn ei anerchiad dydd ei hangladd dywedodd Mr. Thomas na chai yr un anhawster i gael testun tarawiadol iddi hi, am fod yna ddigon o nodweddion amlwg yn ei bywyd—nodweddion sy'n creu cymeriad a anwylir gan bawb dynion, sef haelioni, serchogrwydd a ffyddlondeb. Cymeriad felly, mi a gredwn y mae Duw hefyd yn ei anwylo. Y geiriau a gymerodd yn sylfaen i'w sylwadau oedd y rhai hynny a welodd ar y mur yn ei chartref, "Rhydd efe hûn i'w anwylyd". Gedy ar ei hôl un mab, William J. James, yr hwn sy'n llanw pulpudau'r cylch ambell dro, mewn hiraeth dwys ar ei hôl, heblaw nifer o berthynasau eraill.

Chwefror 28, yn Tyngrug Villa, Cwmsychbant yn 63 oed, bu farw Mr. DAVID JOHN THOMAS. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes ar ei fferm yn Nhyngrug-isaf yn amaethwr cymen a llwyddiannus. Cafodd yr ardal ef yn

gymydog da a chymwynaswr parod, a'i aelwyd gynnes yn groesawus i bawb. Fe'i cynorthwywyd yn fawr yn hyn oll gan ei briod hawddgar. Yr oedd yn un o ffyddloniaid Capel-y-Cwm ac yn rhagori yn ei wasanaeth i'r achos ymhob cyfeiriad ; yn un o'r blaenoriaid, ac yn ysgrifennydd gofalus, ac nid oedd neb yn fodlon symud heb ei gyngor a'i gyd-syniad. Yn yr angladd yng Nghapel-y-Cwm y dydd Mawrth dilynol yr oedd y dorf yn dystiolaeth o'r parch oedd iddo yn y plwyf. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. S. E. Bowen, Lewis Williams, J. Marles Thomas a S. Morgan, Ficer y Plwyf. Gadawodd mewn hiraeth dwys o'i golli briod, dwy chwaer a nifer o berthynasau eraill.

Dydd Sadwrn, Mawrth 9 yn 67 mlwydd oed, yn annisgwyliadwy, bu farw ELIZABETH JONES, Caeronnen, Llanbedr. Nid oedd yn gryf, ond bu farw mor annisgwyliadwy nes peri dychryn i bawb. Merch dawel, siriol ac addfwyn ydoedd ac iddi ffrindiau lawer. Yr oedd pob un yn hoff ohoni ac iddi air da gan bawb. Cofiwn am ei thad a'i mam ar yr hen aelwyd, ond y mae'r aelwyd wedi'i gwacau ac nid oes ond *un* chwaer yn aros yno mwy. Gadawodd i alaru ar ei hôl ddwy chwaer, brawd a pherthynasau eraill, ac y mae'n cydymdeimlad gyda hwynt i gyd, ond yn arbennig gyda'r chwaer sy'n aros ar yr hen aelwyd. Claddwyd ym mynwent Brondeifi, a'r angladd yn anghyoedd. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog gyda chynorthwy parod Canon Jenkins a'r Curad. Heddwch i'w llwch.

Dydd Sadwrn, Mawrth 14, claddwyd gweddillion marwol JOHN LEWIS o'r Brynglas, Aberdâr yn y fynwent gyhoeddus. Yr oedd wedi croesi'r 93, ond hyd y diwedd yr oedd yn ŵr craff a bywiog. Teiliwr ydoedd o ran crefft ond yr oedd iddo ddiddordebau lletach o lawer. Ysgrifennodd nofel i'r *Darian*, cyhoeddodd gylchgrawn o'r enw *Gwreichion* am gyfnod, ac fe gyfansoddodd beth wmbredd o farddoniaeth gaeth a rhydd. Arferai dderbyn Yr Ymofynnydd yn gyson, ac er nad Undodwr ydoedd, gofynwyd i'r Golygydd ofalu am wasanaeth ei angladd. Fe welir eisiau "Glanynys" yn Aberdâr, a distaw mwy fydd ei barabl rhwydd a'i syniadau newydd. Bu farw a llinell o gynghanedd ar ei wefus—"Dirion dôn y deryn du" a gallwn sicrhau'r angylion y bydd gofyn iddynt lefaru'r iaith Gymraeg a dysgu'r gynghanedd yng nghwmni John Lewis.

Newyddion yr Enwad.

CRONFA APÊL YR YMOFYNNYDD.—Y mae ffrwd gyson o gyfraniadau yn dod o hyd, a diolch i bawb amdanynt. Hwyrach y cawn gyfraniad o bob capel cyn diwedd y flwyddyn, a gweld Yr Ymofynnydd a'i '*draed allan o'r dŵr oer*,' chwedl un cyfaill. Dyma'r cyfraniadau diwethaf : Panty-

defaid, £3/3/0 ; Llwynrhydowen (yn ychwanegol at bunt o'r blaen)—y Capel, £2 ; Urdd y Benywod, £1 ; yr Ysgol Sul, £1 ; Y Parch. Lewis Williams, £1.

BWLCHYFADFA.—Nos Sul, Chwefror 24 cafwyd pasiant crefyddol dan arweiniad Miss Thomas, Green Grove a'i brawd, Mr. David Thomas, Caerau. Ni chafwyd dim tebyg yn yr ardal hon o fewn cof ac yr oedd actio'r plant yn gofiadwy a'r olygfa gyfan yn brydferth. Diolchwn i Miss Thomas am ei llafur cariad dros y plant.—Nos Wener, Chwefror 29, yn Neuadd Goffa Talgarreg, cafwyd Gŵyl Ddrama odidog gan Gwmni'r Graig, Llandysul. Y cynhyrchydd yw'r Parch. J. Marles Thomas a gwelwyd ôl ei waith ar bortread y cymeriadau. Uchafwbynt y noson oedd "Y Forwyn Newydd" o waith y Parch. E. R. Dennis, a Thwm a Dai yn tynnu'r tŷ i lawr. Diolchodd Mr. Evan Davies, Woodlands i bawb ac eiliwyd gan Mr. Inver Davies, Gwardafolog.

CYMANFA SIR FORGANNWG.—Cynhelir y gymanfa hon ddydd Llun y Pasg, Ebrill 14 yng Nghapel y Graig, Trebanos. Yr arweinydd fydd Isaac Hopkin ac Emrys Hopkin fydd yr organydd. Y llywyddion yw Mr. Edgar Williams, Aberdâr ; Evan D. Arthur, Cefn Coed a'r Parch. R. I. Pritchard. Defnyddir yr un rhaglen ac eiddo Cymanfa Ceredigion ynghyd â "And the Glory of the Lord" a'r "Nefol Gôr" fel anthemau. Estynnir croeso cynnes i wŷr Ceredigion i ymuno â ni yn y mawl. *Cofiwch ddod a phedwar swllt yn eich poced i brynu copi o ' Salmau'r Mynydd,' y llyfr emynau newydd a luniwyd gan wŷr Trebanos.*

MEWN LLAW.—Y mae gennyf fwy o ddeunydd mewn llaw yn awr nac a fu ers tro. Gofynnaf i'r gohebwyr caredig arfer amynedd. Bu raid cadw nifer o adolygiadau hefyd at y tro nesaf.

CRONFA'R MYFYRWYR.—Annwyl Olygydd—Caniatewch i mi unwaith eto wneud fy apêl flynyddol am gymorth at Gronfa'r Myfyrwyr. Fel y gŵyr y rhan fwyaf o'ch darllenwyr mae gennym dri myfyriwr Undodaidd Cymreig eleni, dau yng Nghaerfyrddin, sef Basil H. Hopkin a Watcyn Davies, a'r llall, Elwyn Davies, yn Abertawe yn astudio am y radd o B.A. Caiff y ddau o Sir Aberteifi gynorthwy sylweddol gan y Cyngor Sir, sydd yn fwy eu cydymdeimlad â'r weinidogaeth nag awdurdodau addysg Morgannwg. Gwna hyn faich y Gronfa yn llai o orchwyl. Er hynny, ni ddylem anghofio fod costau byw wedi cynhyddu gryn dipyn er pan sefydlwyd y *minimum grants*—ac yn awr ar godi yn uwch eto fel canlyniad i'r gyllideb. Ac er na chlywais un si fod y myfyrwyr yn sôn am fynd ar *strike*, 'rwyf yn sicr na wasga y codiad fwy ar neb nag ar fechgyn ieuainc ym mlynyddoedd eu tyfiant. Bwriadaf felly geisio gan Bwyllgor y Myfyrwyr gynnyddu y grantiau yn ddioed gan nas gellir yn rhesymol ddisgwyl am astudiaeth lwyddianus pan flinir y meddwl

yn barhaus gan bris y dorth. Ac ni faddeuir i ni os cedwir hyd yn oed un allan o'r pwlpud gan y pryder am fywoliaeth. Ceisiaf felly am barhad o'r gefnogaeth dda gafwyd yn y blynyddoedd diweddar gan y cynulleidfaoedd a'r tanysgrifwyr, gan ddiolch iddynt oll am eu haelioni hyd yma. Erfyniaf, fodd bynnag, ar i'r rhai diog i anfon eu cyfran yn gynharach gan fod blwyddyn y Gronfa yn gorffen ar y 30ain o Fehefin, ac y mae yn ddryswch diachos i'r archwilwyr pan ddaw taliadau Mehefin i law tua'r Nadolig canlynol. Felly ewch ati ar unwaith os gwelwch yn dda—*Heddiw* yw dydd cymeradwy yr Ysgrythur—ac anfonwch i mi *cyn Mehefin 31ain.*

CELFAN, SOUTHGATE, ABERTAWE. SIMON JONES, *Trysorydd.*

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

CYNHELIR

Y CYRDDAU CHWARTEROL

Y GYMDEITHAS UCHOD YNG

NGHAPEL BRONDEIFI

LLANBEDR-PONT-STEFFAN

MAWRTH a MERCHER, EBRILL 29 a 30, 1952

Hwyr Mawrth am 7 o'r gloch—Gwasanaeth a dwy Bregeth.

Fore Mercher am 11—Pwyllgor y Gymdeithas.

Prynhawn Mercher am 2—Gwasanaeth a dwy Bregeth.

Hwyr Mercher am 6—Gwasanaeth a dwy Bregeth.

Disgwylir Gweinidogion Aberteifi a Morgannwg i wasanaethu.

T. OSWALD WILLIAMS, *Gweinidog.*

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.